

**CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG**

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 8fed Mawrth, 2021**, drwy gyfrwng 'zoom' o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cyngorydd Elin Hughes (Cadeiryddes)

Y Cyngorydd Dylan Parry Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Siôn Williams

Y Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

Ymddiheuriad: Y Cyngorydd Ifor Owen

**93. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Gadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd, yn ôl yr arfer, i'r Cyngorydd Michael Strain am hwyluso'r trefniant o gael cyfarfod dros 'zoom.' Estynodd hefyd ei diolch, ar ran y Cyngor, am bresenoldeb Dr. O.G. Morris i'r cyfarfod.

**94. MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**

Eglurodd Dr. Morris eu bod bellach wedi penodi Julie Griffiths, 'Advance Nurse Practitioner' – yn wreiddiol o Lanbedrog ac wedi gweithio am y dair blynedd olaf i'r dair Meddygfa ym Mhen Llyn – bydd yn llawn amser i Feddygfa Rhydbach, gyda phrofiad eang ac hefyd yn siarad Cymraeg. Bydd Ms. Griffiths yn ymuno a'r Feddygfa ar Ddydd Iau, 1af Ebrill, 2021.

Dywedodd fod y penodiad yma yn mynd i leihau'r pwysau arno ef a Dr. Haque gan fod Nyrs o'r math yma yn gallu ymgymryd a'r rhan fwyaf o ddyletswyddau Meddyg ar wahan i, er enghraifft, llenwi ac arwyddo tystysgrif marwolaeth, anfon claf am rai mathau o beledr-x. Gyda'r penodiad yma byddai dau Feddyg llawn amser yn y Feddygfa a dwy 'Advance Nurse Practitioner.'

Deallwyd y byddai Dr. Smits yn terfynu ei wasanaeth gyda'r Feddygfa ar ddiwrnod olaf mis Mawrth, a dymunwyd iddo ymddeoliad hapus.

Wrth ddiweddu dywedodd Dr. Morris ei fod yn hapus iawn gyda'r penodiad ac ei fod yn gweld dyfodol bellach i'r practis yn Rhydbach.

Diolchodd y Gadeiryddes i Dr. Morris am ymuno yn y cyfarfod ac am ei wasanaeth i'r Gymuned.

**95. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiant personol.

**96. CADARNHAU COFNODION**

**Cyflwynwyd** a chadarnhawyd cofnodion y Cyngor 11eg Ionawr, 2021. Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones ac eiliwyd gan Y Cyngorydd Sion Williams.

**MATERION YN CODI –**

**(1) Eitem 85 – Diwrnod gweithwyr y GIG (tudalen 2)**

**Nodwyd** y byddai'r tair 'cysylltydd' Llanw Llanw yn nodi'r achlysur uchod yn rhifynau Mawrth/Ebrill/Mai o 'Llanw Llyn' ac yn gofyn am awgrymiadau gan yr ardalawyr.

## **(2) Eitem 92 – Cyngor Tref Nefyn (tudalen 3)**

**Cyflwynwyd** atebiad Julie James, AS/MS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, fod “Llywodraeth Cymru yn hynod ymwybodol o'r pryderon ynglyn a hyn ac ynglyn a nifer yr ail gartrefi mewn rhai cymunedau yng Nghymru. Rydym wedi cymryd camau gweithredu pendant a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i ni fynd i'r afael a'r materion hyn. Er hynny, rwyf hefyd yn ymwybodol nad oes un ateb penodol ac yn credu bod angen dull cydlynol, systemig. Mae cyd-weinidogion a minnau wedi sefydlu grwp trawsbleidiol wrth i ni barhau i lunio a datblygu cynigion a chamau gweithredu cysylltiedig i ychwanegu at y dulliau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u mabwysiadu.

Ar 29 Ionawr, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig am ail gartrefi <https://cymru/datganiad-ysgrifenedig-ail-gartrefi-yng-nghymru> Mae'r datganiad yn nodi'r hyn sydd wedi'i wneud eisoes a'r gwaith y byddwn yn ei gyflawni yng ngweddill tymor y Senedd hon.”

**Penderfynwyd** nodi'r atebiad.

## **97. CEISIADAU CYNLLUNIO**

### **Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:**

- (a) Cais C20/1031/32/LL – Cyngor Gwynedd, Ysgol Botwnnog – estyniad a newidiadau i ardal y prif dderbynfya ynghyd a gwelliannau a newidiadau i adeiladau'r ysgol, ail wynebu'r cae pob tywydd ynghyd ag amnewid y ffens a chodi ffens newydd ar ran o ffiniau'r Ysgol.
- (b) Cais C21/0124/32/LL – Caerau, Llangwnnadi – codi sied amaethyddol er mwyn cadw peiriannau amaethyddol ag offer.
- (c) Cais 20/0148/32/DT – Grem, Bryncroes – dymchwel modurdy presennol a chodi estyniad deulawr.
- (d) Cais 21/0161/32/LL – Tyn y Marla, Sarn Mellteyrn – maes carafannau teithiol ar gyfer 10 carafan gydag adeilad cysylltiol

**Penderfynwyd** cefnogi'r pedwar cais uchod.

## **98. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

- (a) **Adroddodd** Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, ei fod wedi cael cwynion unwaith yn rhagor am y ffordd o Graig Fael i Graig Ewig ac awgrymodd fod cyfarfod ar y safle bellach yn opsiwn y dylid ei ystyried.
- (b) **Tynnwyd** sylw hefyd at gyflwr y ffordd o Graig Ewig i lawr am benlon Muriau, Bryncroes, ac hefyd y ffordd sy'n arwain o benlon Muriau a dod allan ar y ffordd rhwng Graig Ewig a Choch y Moel, Bryncroes.
- (c) **Hefyd** tynnwyd sylw fod y gwter gyferbyn a giat Mynwent Llandegwennig (Mynwent y Cyngor) angen ei glanhau gan fod dwr dwfn yn sefyll yno.

**Penderfynwyd** anfon y materion uchod i sylw Peiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd.

99. **MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater wedi dod i sylw'r Cyngor i'w anfon ymlaen at Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru.

100. **TENDRAU BARBIO**

**Agorwyd** dau dendr gan y Swyddog Cyllidol Atebol (Y Clarc) yng ngŵydd y Cyngor yn unol â rheol 65 o'r Rheoliadau Sefydlog. Sylwyd fod y ddau ddyfynbris yn agos iawn i'w gilydd, £20 o wahaniaeth yn y gwaith o dorri mynwent Llandegwning; £60 o wahaniaeth yn y gwaith o dorri Comin Bryncroes a phris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus ac unrhyw waith ychwanegol yn £15 yr awr.

Trafodwyd y ddau bris a **phenderfynwyd**

(a) derbyn pris J.A. Pozzi, Ger Llwyn, Rhydyclafdy fel a ganlyn:

Barbio Mynwent y Cyngor yn Llandegwning (y fynwent newydd lle mae ond ychydig o feddau yn y pen draw); **y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2021, a'r gwellt i'w glirio oddi yno - £520 + TAW**

Barbio Comin Bryncroes yn unig (y tir sydd islaw tai'r Cyngor) amgylfnod o saith mis (Ebrill i fis Hydref, 2021); **y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2021, a'r gwellt i'w glirio oddi yno - £910 + TAW**

Pris yr awr am farbio llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn - **£15 + TAW yr awr.**

**Cynigiwyd** gan Y Cyngorydd Sion Williams ac eilwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn unfrydol o blaid).

**Nodwyd** mai nid y tendr hwn oedd y tendr isaf ond gweithredwyd yn unol â rheol 66 o'r Rheoliadau Sefydlog, sef "ni fydd rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y tendr isaf." Y rhewm am ddod i'r penderfyniad yma oedd fod Mr. J.A. Pozzi wedi gweithio i'r Cyngor am nifer o flynyddoedd bellach ac 'roedd safon ei waith bob amser yn arbennig o dda. Hefyd teimlwyd nad oedd digon o wahaniaeth yn y ddau dendr i newid ymgymwrwr.

**Nodyn pellach** – Er fod un pris heb TAW a'r pris dderbyniwyd gyda TAW yn ychwanegol, 'roedd y Cyngor yn gallu ad-hawlio'r arian yma'n ôl.

(b) Diolch i Mr. Rhys Jones, Congl Cae, Rhydyclafdy, am gyflwyno tendr ond yn anffodus ni fu'n llwyddiannus y tro hwn.

101. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Llanw Llyn – hysbyseb am ddau fis (barbio tiroedd y Cyngor)	£18 (siec 200720)
Y Clarc	£372.55 (200724)
HMRC	£ 93.20 (200725)
Y Clarc costau stampiau	£ 40.76 (200726)

Tra'n trafod y tri taliad olaf bu'r Clarc gael ei rhoi yn 'yr ystafell aros' ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafoaeth.

102. **CYFLE I REDEG CAFFI SIOP Y PLAS, ANELOG**

**Nodwyd** fod pecyn gwybodaeth i law oddi wrth Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau (Ardal Dwyfor) ac fod copi ar gael i unrhyw un a diddordeb, gan Y Clarc neu i gysylltu ag [alundwyros@btinternet.com](mailto:alundwyros@btinternet.com) am fwy o wybodaeth.

103. **LLENWI BINIAU HALEN**

**Derbyniwyd** cais am gael llenwi bin halen ar y ffordd o Bronllwyd Fawr i Ty Canol, Bryncroes. Hefyd ymddiheurodd y Clarc am gamarwain y Cyngor yn y cyfarfod olaf gan fod ADRA wedi hysbysu mai cyfrifolden y Cyngor Cymunedol oedd darparu bin halen ar ffordd Ystad Bryn Mair, Bryncroes, ac nid hwy.

**Penderfynwyd** gofyn i'r Adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd lenwi'r bin ar y ffordd o Bronllwyd Fawr i Ty Canol, Bryncroes ac hefyd am fin (y lleia posibl) i ystad Bryn Mair, Bryncroes. Hefyd gofyn am bris cyflenwi'r bin.